TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 3 Opsiwn 3.3

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Cyflwyniad....1
Nodau'r Canllawiau Addysgu....1
Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:....1
Strwythur y cymhwyster....2
Asesu....3
Crynodeb o'r Asesu....3
Uned 3 Amcanion asesu a phwysoliadau....3
Trosolwg o Uned 3: Opsiwn 3.3....4
Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 3.3 Modern Cynnar: Ymerodraeth Songhai, tua 1464-tua 1591....5
Profiadau Dysgu....25
Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru....26
Rhestr Termau ar gyfer Opsiwn 3.3 Ymerodraeth Songhai tua 1464 - tua 1591....33

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028 | 1 |

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

### Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr.Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

### Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â’r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair  uned.Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn dysgu'r unedau.

| | **Teitl yr uned** | **Math o Asesiad** | **Pwysoli** |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Asesu

## Crynodeb o'r Asesu

| **Uned 3: Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**<br>***Arholiad ysgrifenedig*: 1 awr**<br>**30% o'r cymhwyster**<br><br>60 marc |
|---|
| Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol i gynnal astudiaeth eang o gyfnod hanesyddol estynedig.<br><br>**Yr Oesoedd Canol**<br>**3.1** Y Llychlynwyr, tua 750 - tua 1066<br>**3.2** Y Croesgadau, tua 1095 - tua 1291<br>**Modern Cynnar**<br>**3.3** Ymerodraeth Songhai, tua 1464-tua 1591<br>**3.4** Yr Ymerodraeth Mughal, tua 1526-tua 1707<br>**Modern**<br>**3.5** Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 – tua 1953<br>**3.6** Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau tua 1880 – tua 1980<br><br>Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol. |

## Uned 3 Amcanion asesu a phwysoliadau

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion y cyfnodau a astudiwyd | 10% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 10% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 10% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Trosolwg o Uned 3: Opsiwn 3.3

**Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**
(30% o'r cymhwyster)

Diben Uned 3 yw rhoi cipolwg ar gyfnod hanesyddol estynedig gan alluogi dysgwyr i archwilio cysyniadau allweddol. Nod yr opsiwn hwn yw meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'r modd y newidiodd ac y datblygodd Ymerodraeth Songhai yn y cyfnod rhwng tua 1464 a thua 1591.

| Cyfnod amser | Opsiwn 3.3 | |
|---|---|---|
| Modern Cynnar | 3.3 | Ymerodraeth Songhai, tua 1464-tua 1591 |
| | 3.3.1 | Ymerodraeth gynnar Songhai o dan Linach Sonni |
| | 3.3.2 | Rheolaeth Askia Muhammad tua 1493-1 |
| | 3.3.3 | Oes Aur Songhai yn yr unfed ganrif ar bymtheg |
| | 3.3.4 | Bywyd yn Ymerodraeth Songhai yn yr unfed ganrif ar bymtheg |
| | 3.3.5 | Dirywiad a chwymp Ymerodraeth Songhai |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 3.3 Modern Cynnar: Ymerodraeth Songhai, tua 1464-tua 1591

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

| 3.3 Cefndir: sefydlu teyrnas Songhai yn yr Oesoedd Canol<br>(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. **Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol**). | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • cyd-destun daearyddol, masnachol a chrefyddol Gorllewin Affrica. | Lleoliad Gorllewin Affrica.<br><br>Pwysigrwydd masnachu i Orllewin Affrica, gan gynnwys y mathau o nwyddau a fasnachwyd.<br><br>Traddodiad crefyddol, gan gynnwys traddodiadau crefyddol paganaidd Gorllewin Affrica a datblygiad Islam yng Ngorllewin Affrica. | **Gweithgareddau:**<br>Edrychwch ar fap(iau) o Orllewin Affrica i nodi lleoliadau allweddol.<br><br>Tasg ymchwilio - nodwch nwyddau a fasnachwyd a thraddodiadau crefyddol Gorllewin Affrica.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu dealltwriaeth o ble oedd Gorllewin Affrica, rhoi sylwadau ar y mathau o nwyddau a fasnachwyd a chrefydd yn yr ardal.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Crynhowch effaith masnachu ar yr ardal. | **Map(iau):**<br>Cyflwyno'r Deyrnas<br><br>**Gwefan(nau):**<br>West Africa Kingdoms - BBC<br><br>Kingdom of Mali Primary Sources<br><br>**Erthygl(au):**<br>Trade Across the Sahara<br><br>**Fideo(s):**<br>Mansa Munsa and Islam in Africa - Crash Course World History | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr wneud cysylltiadau rhwng masnachu a chrefydd yng Ngorllewin Affrica. | What was precolonial West Africa like?<br><br>**Llyfr(au):**<br>*West African Kingdoms*, Gwerslyfr(au) Astudiaeth Fanwl CA3: OUP, Pennod 1 | |
| • dirywiad Ymerodraeth Mali a tharddiad Ymerodraeth Songhai. | Lleoliad a datblygiad Ymerodraeth Mali.<br><br>Oes aur Mali o dan Mansa Munsa.<br><br>Dirywiad Ymerodraeth Mali a tharddiad Ymerodraeth Songhai. | **Gweithgareddau:**<br>• Defnyddiwch fap(iau) i nodi lleoliad Ymerodraeth Mali a Songhai<br>• gwerthuswch bwysigrwydd eu lleoliad yng Ngorllewin Affrica<br>• llinell amser - rhowch ddigwyddiadau allweddol o hanes Ymerodraeth Mali mewn trefn gronolegol<br>• trafodaeth - pam y gwnaeth Ymerodraeth Mali ddirywio? Sut y gwnaeth hyn effeithio ar dwf Ymerodraeth Songhai?<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pam yr oedd Ymerodraeth Songhai yn llwyddiannus, gan wneud cysylltiadau â dirywiad Ymerodraeth Mali.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Rhestrwch agweddau cadarnhaol a negyddol dirywiad Ymerodraeth Mali. | **Llyfr(au):**<br>*West African Kingdoms*, gwerslyfr Astudiaeth Fanwl CA3 OUP<br><br>**Map(iau):**<br>Ymerodraeth Mali<br><br>**Fideo(s):**<br>History of the Songhai Empire<br><br>**Podlediad(au):**<br>The Songhay Empire 1450 – 1591 / Historical Association | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso effaith dirywiad Ymerodraeth Mali ar Orllewin Affrica. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="5">3.3.1 Ymerodraeth gynnar Songhai o dan Linach Sonni</th></tr>
<tr><th>Dylai dysgwyr ddeall:</th><th>Gwybodaeth</th><th>Gweithgareddau a Chanlyniadau</th><th>Adnoddau</th><th>Amser a awgrymir (oriau)</th></tr>
<tr><td><ul><li>Sonni Ali a'i arweinyddiaeth dros Ymerodraeth Songhai, gan gynnwys:<ul><li>ei linach a'i esgyniad i rym</li><li>ei gredoau crefyddol a'i berthynas â'r ysgolheigion Islamaidd.</li></ul></li></ul></td><td>Cefndir teuluol Sonni Ali.<br><br>Y rhesymau dros gymysgedd Sonni Ali o baganiaeth (hud) ac Islam ac effaith hynny.<br><br>Y ffyrdd yr oedd credoau crefyddol Sonni Ali yn wahanol i ysgolheigion Islamaidd.<br><br>Y rhesymau pam yr oedd rhai ysgolheigion Mwslimaidd yn feirniadol o Sonni Ali.</td><td>Gweithgareddau:<ul><li>llinell amser - rhowch ddigwyddiadau allweddol o fywyd Sonni Ali mewn trefn gronolegol</li><li>crynhowch gredoau crefyddol Sonni Ali</li><li>cymharwch a chyferbynnwch gredoau Sonni Ali ag ysgolheigion Mwslimaidd</li><li>trafodaeth - pam yr oedd ysgolheigion Mwslimaidd yn feirniadol o Sonni Ali?</li><li>gwaith ffynhonnell - cymharwch a chyferbynnwch safbwyntiau amrywiol Sonni Ali.</li></ul>Canlyniad:<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut y daeth Sonni Ali i rym a'r ffyrdd yr effeithiodd ei gredoau crefyddol ar ei berthynas ag ysgolheigion Mwslimaidd.<br><br>Gweithgaredd uwch:<br>Aseswch bwysigrwydd credoau crefyddol Sonni Ali ar sefydlu Ymerodraeth Songhai.<br><br>Canlyniad uwch:<br>Gall dysgwyr wneud cysylltiadau rhwng credoau crefyddol Sonni Ali a'i arddull arwain.</td><td>Erthygl(au):<br>Biography of Sonni Ali, Songhai Monarch<br><br>Llyfr(au):<br>The Songhai Empire, gan Captivating History<br><br>The History of Africa: The Quest for Eternal Harmony, Molefi Kete Asante, 2012<br><br>Medieval Islamic Civilization: L-Z, Meri a Bacharach, 2004<br><br>Songhay, Adeleke Tunde, 1996</td><td>1 awr</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • pwysigrwydd ymgyrchoedd milwrol Sonni Ali, gan gynnwys:<br>• strategaethau a thactegau<br>• cipio Timbuktu (1468) a Djenné (1472) a'u pwysigrwydd. | Datblygiad llynges Sonni Ali a'i heffaith ar ehangiad yr ymerodraeth.<br><br>Datblygiad byddin broffesiynol.<br><br>Y digwyddiadau a arweiniodd at gipio Timbuktu a'r cyfnod dilynol.<br><br>Y digwyddiadau a arweiniodd at gipio Djenne a'r cyfnod dilynol. | **Gweithgareddau:**<br>• crynhowch ddatblygiad llynges Sonni Ali a'i phwysigrwydd<br>• cymharwch a chyferbynnwch bwysigrwydd datblygu'r llynges a'r fyddin<br>• lluniwch adroddiad rhyfel ar gipio Timbuktu o safbwynt y Songhai yn erbyn ysgolheigion Mwslimaidd yn y ddinas<br>• ysgrifennu creadigol - lluniwch naratif person cyntaf yn amlinellu'r digwyddiadau a arweiniodd at gipio Sonni Ali a'r cyfnod dilynol o safbwynt un o drigolion Timbuktu<br>• gan ddefnyddio map(iau) nodwch ehangiad yr ymerodraeth o dan reolaeth Sonni Ali. Labelwch y lleoliadau allweddol a gipiodd Sonni Ali fel Timbuktu a Djenne<br>• cwestiwn ffocws - sut yr arweiniodd rheoli dinasoedd fel Timbuktu at atgyfnerthu ymerodraeth Sonni Ali yn economaidd ac yn ddiwylliannol?<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y datblygiadau yn y llynges a'r fyddin. Gall dysgwyr werthuso pwysigrwydd cipio Timbuktu a Djenne.<br><br>**Gweithgaredd uwch:** | **Erthygl(au):**<br>The Songhai Empire: Summary of Sonni Ali's empire expansion - World History Volume 2<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Timbuktu and the Songhay Empire: Al-Sa'dī's Ta'rīkh Al-Sūdān Down to 1613 and Other Contemporary Documents*, Brill<br><br>*The Songhai Empire* gan Captivating History<br><br>*African Kingdoms*, E-lyfr Safon Uwch: OCR | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | A oedd Sonni Ali yn goncwerwr a oedd yn canolbwyntio ar ehangu neu'n adeiladwr ymerodraeth a oedd yn dangos arloesedd ac arweinyddiaeth dda?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso pwysigrwydd ymgyrchoedd Sonni Ali i gryfder Ymerodraeth Songhai. | | |
| • natur ac effaith rheolaeth Sonni, gan gynnwys:<br>  • ei arddull hyblyg wrth arwain a phwysigrwydd cynhwysiant i sefydlogrwydd Ymerodraeth Songhai<br>  • ei farwolaeth yn 1492 a diwedd Llinach Sonni dan Sonni Baru ym Mrwydr Anfao, 1493. | Y rhesymau dros arddull arwain Sonni Ali ac effaith hyn.<br><br>Y rhesymau dros oddefgarwch Sonni Ali o grefyddau eraill ac effaith hyn.<br><br>Y ddadl dros achos marwolaeth Sonni Ali.<br><br>Esgyniad Sonni Baru i rym pan fu farw Sonni Ali.<br><br>Y rhesymau pam y methodd Sonni Baru gynnal rheolaeth o Ymerodraeth Songhai gan gynnwys diffyg profiad, yr her gan Askia Muhammad (a alwyd yn Muhammad Ture cyn iddo reoli'r Ymerodraeth) a | **Gweithgareddau:**<br>• crynhowch bolisi cynhwysiant Sonni Ali ac archwiliwch ei effaith ar sefydlogrwydd yr ymerodraeth<br>• ysgrifennwch deyrnged i Sonni Ali<br>• cyflwynwch ddadl - beth oedd cyflawniad mwyaf Sonni Ali?<br>• lluniwch ddogfen neu adroddiad newyddion ar fywyd ac effaith rheolaeth Sonni Ali gan ddefnyddio dulliau digidol. Gellir golygu'r rhain a'u rhannu â'r dosbarth.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall dehongliadau amrywiol o Sonni Ali gan gynnwys hanes llafar ac ysgolheigion Mwslimaidd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Rhowch ddigwyddiadau yn rheolaeth Sonni Ali yn eu trefn o'r lleiaf llwyddiannus i'r mwyaf llwyddiannus.<br><br>**Canlyniad uwch:** | **Llyfr(au):**<br>*The Songhai Empire* gan Captivating History, Pennod 4<br><br>*The Royal Kingdoms of Ghana, Mali and Songhay: Life in Medieval Africa*, P & M McKissack, 2016<br><br>*African Kingdoms*, E-lyfr Safon Uwch: OCR<br><br>**Fideo(s):**<br>Songhai Empire: The Fall of Africas Greatest Empire | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | digwyddiadau Brwydr Anfao. | Gall dysgwyr werthuso arwyddocâd polisïau a digwyddiadau unigol yn ystod teyrnasiad Sonni Ali. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.3.2 Rheolaeth Askia Muhammad tua 1493-1528 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • dyfodiad Askia Muhammad gan gynnwys:<br>• ei fywyd cynnar a'i addysg helaeth<br>• ei esgyniad i rym drwy'r rhengoedd. | Cefndir teuluol Askia Muhammad.<br><br>Addysg gynnar a phrofiad milwrol Askia Muhammad.<br><br>Y rhesymau pam yr oedd Asia Muhammad yn addas i reoli Ymerodraeth Songhai. | **Gweithgaredd:**<br>• lluniwch CV ar gyfer Askia Muhammad i amlinellu ei addasrwydd i reoli Ymerodraeth Songhai.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos bod ganddynt wybodaeth am gefndir Askia Muhammad a gwerthuso ei addasrwydd i arwain.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch linell amser ddigidol o Ymerodraeth Songhai o 1464 i 1493.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr nodi'r prif ddatblygiadau yn nhwf Ymerodraeth Songhai o 1493 i 1528. | **Fideo(s):**<br>Askia Muhammad and The Songhai Empire<br><br>Askia Muhammad<br><br>**Llyfr(au):**<br>*The Songhai Empire,* gan Captivating History, Pennod 5<br><br>*African Kingdoms*, E-lyfr Safon Uwch: OCR | 1 awr |
| • rheolaeth Muhammad, gan gynnwys:<br>• dymchwel Sonni Baru<br>• hyrwyddo addysg Islamaidd a chyfraith Sharia. | Y rhesymau pam y diorseddodd Askia Muhammad Sonni Baru.<br><br>Canlyniadau Askia Muhammad yn diorseddu Sonni Baru.<br><br>Credoau crefyddol Askia Muhammad. | **Gweithgareddau:**<br>• crynhowch gredoau crefyddol Askia Muhammad a chymharwch nhw â rhai Sonni Ali<br>• ymchwiliwch i agweddau gwahanol ar Gyfraith Sharia a chyflwynwch y canfyddiadau.<br>• cymharwch a chyferbynnwch safbwyntiau ar ddulliau Askia Muhammad o hyrwyddo Islam. | **Gwefan(nau):**<br>Sharia Law - BBC Religions<br><br>Quranic Verses on Education - Qiratul Quran | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Y rhesymau dros hyrwyddo addysg Islamaidd.<br><br>Effaith Cyfraith Sharia ar sefydlogrwydd Ymerodraeth Songhai o dan Askia Muhammad. | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio sut y daeth Askia Muhammad i rym a phwysigrwydd Islam i'w ddull o reoli.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>• cyflwynwch ddadl - a oedd Sonni Baru neu Askia Muhammad mewn sefyllfa well i reoli Ymerodraeth Songhai?<br>• gwerthuswch ffynhonnell - archwiliwch ddarnau o Adnodau'r Quran ar Addysg (Qiratul Qu'ran) i ystyried sut y byddai'r rhain wedi dylanwadu ar bolisïau Askia Muhammad.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr gymharu a chyferbynnu addasrwydd Sonni Ali ac Askia Muhammad i arwain a'u sgiliau. | **Llyfr(au):**<br>*The Songhai Empire,* gan Captivating History, Pennod 5<br><br>*Introduction to the History of African Civilization*, C. Magbaily Fyle, 1999<br><br>*An Introduction to Islam in the21st Century*, McCloud. Hibbard & Saud, 2013 | |
| • diwygiadau gweinyddol o dan Askia Muhammad, gan gynnwys:<br>  • newid gwleidyddol a gweinyddol; gan gynnwys gweinyddiaeth wedi'i ganoli, rôl swyddogion allweddol a hyrwyddo meritocratiaeth<br>  • datblygiadau ym maes trefniadaeth filwrol. | Y rhesymau dros weinyddiaeth wedi'i ganoli ac effaith hyn ar yr Ymerodraeth Songhai.<br><br>Rôl llywodraethwyr penodedig (Faris).<br><br>Rôl swyddogion allweddol (llywodraethwyr rhanbarthol, casglwyr treth a swyddogion | **Gweithgaredd:**<br>• gan ddefnyddio map(iau) nodwch ehangiad yr ymerodraeth o dan reolaeth Askia Muhammad.<br>• trafodwch - Pa heriau fyddai Askia Muhammad wedi'u hwynebu wrth reoli ymerodraeth eang ac amrywiol?<br>• ysgrifennwch ddisgrifiadau swyddi ar gyfer y system weinyddol newydd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut y cynhaliodd Askia | **Llyfr(au):**<br>African Kingdoms, E-llyfr Safon Uwch: OCR<br><br>*The Epic of Askia Muhammad*, cyfieithwyd by T. Hale<br><br>*A Social History of Timbuktu, the role of the Muslim Scholars and Notables*, Elias N. Saad | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | milwrol) a'u pwysigrwydd i sefydlogrwydd yr ymerodraeth.<br><br>Pwysigrwydd meritocratiaeth a sut y cafodd ei gymhwyso i weinyddiaeth Songhai.<br><br>Diwygiadau milwrol Askia Muhammad a'u heffaith ar gryfder ac ehangiad yr ymerodraeth. | Muhammad reolaeth dros Ymerodraeth Songhai.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>• Gall dysgwyr lunio diagram Venn i gymharu rheolau Sonni Ali ac Askia Muhammad.<br>• ysgrifennwch - Sut y gwnaeth diwygiadau gweinyddol Askia Muhammad gyfrannu at sefydlogrwydd a chryfder yr Ymerodraeth Songhai?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr feithrin dealltwriaeth fanwl o'r diwygiadau gweinyddol er mwyn asesu eu harwyddocâd. | *Tradition, Culture and Development in Africa*, Ambe J. Njoh, 2006<br><br>*Man Know Thyself Volume 1*, Rick Duncan, 2013<br><br>*Great Kingdoms of Africa*, John Parker, 2023<br><br>**Erthygl(au):**<br>Askia the Great - World History Volume 2<br><br>Askia the Great Presided Over an Expanding Empire<br><br>Askia the Great: Revolt Leader to Powerful Songhai Emperor<br><br>**Gwedudalen(nau):**<br>Songhai: Lumen Learning | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.3.3 Oes Aur Songhai yn yr unfed ganrif ar bymtheg | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • ffyniant economaidd yr ymerodraeth, gan gynnwys:<br>  • arwyddocâd y llwybrau masnach ar draws y Sahara, yn economaidd ac yn ddiwylliannol, gan gynnwys y fasnach mewn caethweision<br>  • pwysigrwydd canolfannau marchnad gan gynnwys Gao, Timbuktu a'r system arian cyfred. | Lleoliad, pwysigrwydd diwylliannol ac economaidd y llwybrau masnach ar draws y Sahara.<br><br>Y rhesymau economaidd dros gaethwasiaeth a'i bwysigrwydd i'r ymerodraeth.<br><br>Lleoliad Gao a Timbuktu mewn perthynas â'r llwybrau masnach ar draws y Sahara.<br><br>Y mathau o nwyddau a brynwyd ac a werthwyd mewn canolfannau marchnad fel Gao.<br><br>Pwysigrwydd canolfannau masnachu a marchnad i ffyniant Ymerodraeth Songhai.<br><br>Y system arian cyfred a'i phwysigrwydd i | **Gweithgareddau:**<br>• gan ddefnyddio map(iau) gall dysgwyr edrych ar y prif lwybrau masnach a sut maent yn cysylltu â dinasoedd allweddol fel Timbuktu a Gao. Bydd dysgwyr yn ystyried pam yr oedd y rhain yn bwysig i'r ymerodraeth.<br>• Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i un o'r canolfannau marchnad i lunio proffil o'r farchnad gan amlinellu pa nwyddau a fasnachwyd yn y ddinas a sut yr oedd hyn yn cyfrannu at ffyniant yr ymerodraeth<br>• gwerthuswch amrywiaeth o ffynonellau sy'n trafod arian cyfred yn Ymerodraeth Songhai a nodwch fanteision cael system arian cyfred safonedig yn yr ymerodraeth.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd canolfannau marchnad a llwybrau masnach i ffyniant economaidd yr ymerodraeth.<br><br>**Gweithgareddau uwch**<br>Ysgrifennwch - Sut y cyfrannodd y llwybrau masnach ar draws y Sahara at | **Llyfr(au):**<br>*African Kingdoms*, E-lyfr Safon Uwch: OCR<br><br>Timbuktu & the Songhay Empire, John Hunwick, 2003<br><br>Slavery and Slaves in Muslim Africa, John Willis, 1985<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Songhai, African Empire, 15-16th Century<br><br>**Erthygl(au):**<br>The causes and effects of trans-Saharan trade | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | fasnachu yn yr ymerodraeth. | ddatblygiad economaidd a diwylliannol Ymerodraeth Songhai?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso effaith y llwybrau masnach ar draws y Sahara ar ffyniant yr ymerodraeth. | | |
| • datblygiadau diwylliannol a deallusol, gan gynnwys:<br>  • datblygiadau ym maes barddoniaeth, llenyddiaeth a gwyddoniaeth gan gynnwys pwysigrwydd llawysgrifau<br>  • Timbuktu a Djenné fel canolfannau dysg, gan gynnwys datblygiad llyfrgelloedd. | Pwysigrwydd diwylliannol barddoniaeth, llenyddiaeth a gwyddoniaeth yn Ymerodraeth Songhai.<br><br>Arwyddocâd llawysgrifau.<br><br>Rôl Timbuktu a Djenne fel canolfannau dysg, gan gynnwys datblygiad eu llyfrgelloedd. | **Gweithgareddau:**<br>• gwaith ffynhonnell - edrychwch ar enghreifftiau o lawysgrifau a thrafodwch pam yr oeddent mor bwysig.<br>• gwyliwch glipiau fideo am y sefydliadau addysgol amrywiol yn Timbuktu i nodi eu pwysigrwydd<br>• cymharwch a chyferbynnwch Timbuktu a Djenne fel canolfannau dysg<br>• trafodwch - pam yr oedd dysgu mor bwysig yn Timbuktu a Djenne?<br>• crynhowch y prif ddatblygiadau mewn barddoniaeth, llenyddiaeth a gwyddoniaeth.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ystyried dylanwad ac effaith diwylliant a threftadaeth ar bobl Songhai.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>• darllenwch ddarnau o ddisgrifiad Leo Africanus o Timbuktu. Beth y gallwn ei ddysgu o'r cyfrif hwn am bwysigrwydd Timbuktu i'r ymerodraeth? | **Fideo(s):**<br>Djinguereber Mosque in Timbuktu, Mali<br><br>The Sankoré University of Timbuktu<br><br>Sankoré Madrasah<br><br>Ahmed Baba - Timbuktu's Famous Scholar<br><br>**Prif Ffynhonnell/Ffynonellau:**<br>Leo Africanus description of Timbuktu | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso safbwyntiau Ewropeaid o Timbuktu ac Ymerodraeth Songhai. | | |
| • datblygiadau milwrol o dan linach Askia, gan gynnwys:<br>  • pwysigrwydd yr ymrwymiad i Islam wrth uno'r fyddin<br>  • rhannu byddin Songhai yn adrannau, ei harbenigedd a'i phroffesiynoldeb. | Rôl Islam yn uno byddin Songhai.<br><br>Sefydliad milwrol yn cynnwys defnyddio unedau arbenigol fel saethwyr, taflwyr gwaywffyn a milwyr marchog.<br><br>Effaith proffesiynoli'r fyddin. | **Gweithgareddau:**<br>• trafodwch - pam yr oedd byddin gref a threfnus yn bwysig i Ymerodraeth Songhai?<br>• rhestrwch fanteision cael byddin broffesiynol<br>• crynhowch y prif newidiadau a wnaed i fyddin Songhai yn ystod llinach Askia<br>• gwerthuswch ffynhonnell - cyfrif Leo Africanus o fyddin Songhai<br>• gwerthuswch bwysigrwydd Islam i'r fyddin.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio a gwerthuso'r prif newidiadau i'r fyddin, gan nodi pwysigrwydd arbenigrwydd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Tasg ddigidol - sut yr helpodd Islam i uno byddin Songhai?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am bwysigrwydd Islam yn y fyddin. | **Llyfr(au):**<br>The Songhai Empire, gan Captivating History, Pennod 5<br><br>**Gwedudalen(nau):**<br>The Songhai Empire – Humanities LibreTexts | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.3.4 Bywyd yn Ymerodraeth Songhai yn yr unfed ganrif ar bymtheg | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • trefniadaeth gymdeithasol Ymerodraeth Songhai, gan gynnwys:<br>• trefnu pobl yn ôl dosbarth cymdeithasol<br>• rôl menywod gan gynnwys gwaith crefft a gwaith crefftus. | Strwythur dosbarth Ymerodraeth Songhai gan gynnwys uchelwyr, gŵyr rhydd, crefftwyr, masnachwyr a chaethweision.<br><br>Effaith y strwythur dosbarth.<br><br>Rôl menywod gan gynnwys bywyd domestig, crefftwyr a masnachwyr. | **Gweithgareddau:**<br>• lluniwch gynrychiolaeth ddigidol o strwythur dosbarth Songhai gan ddangos y rolau a'r cyfrifoldebau gwahanol<br>• ymchwiliwch i fath o grefft a ddefnyddiwyd yn Ymerodraeth Songhai<br>• ysgrifennu creadigol - darn o ddyddiadur menyw a oedd yn byw yn Ymerodraeth Songhai<br>• cymharwch a chyferbynnwch rolau dynion a menywod yn yr ymerodraeth.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o drefniadaeth a diwylliant Songhai.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ym mha ffyrdd yr oedd menywod yn cyfrannu at economi Songhai?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso pwysigrwydd y strwythur dosbarth. | **Llyfr(au):**<br>*Empires of Medieval West Africa: Ghana, Mali, and Songhay* gan David C. Conrad<br><br>**Erthygl(au):**<br>Songhai Women: Tradition and Change along the banks of the Niger River<br><br>Africa's Last Empire: Ancient Songhai<br><br>Songhai - World Cultures<br><br>Songhai People - Wikipedia<br><br>**Delwedd(au):**<br>Menyw Songhai | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • diwylliant pobl Songhai, gan gynnwys:<br>◦ pwysigrwydd dawns draddodiadol, dillad, celf y corff, cerddoriaeth ac adrodd straeon<br>◦ digwyddiadau arbennig fel Gŵyl Gani a Gŵyl Askia. | Mathau o ddawns draddodiadol a chynnal diwylliant traddodiadol.<br><br>Dillad traddodiadol a wisgwyd yn yr ymerodraeth.<br><br>Y rhesymau dros gelf y corff ac enghreifftiau ohono.<br><br>Arwyddocâd adrodd straeon a cherddoriaeth i ddiwylliant a thraddodiadau Songhai.<br><br>Pwysigrwydd Gŵyl Gani a'r ffyrdd y cafodd ei dathlu.<br><br>Pwysigrwydd Gŵyl Askia a'r ffyrdd y cafodd ei dathlu. | **Gweithgareddau:**<br>• edrychwch ar enghreifftiau modern o ddawns a cherddoriaeth Affricanaidd a thrafodwch - beth yw eu diben? Pam maent mor bwysig i bobl?<br>• edrychwch ar enghreifftiau o gelf corff modern a thrafodwch - Beth yw ei swyddogaeth? Pam y byddai pobl Songhai wedi defnyddio celf corff?<br>• lluniwch fap(iau) meddwl ar ddawns, cerddoriaeth a chelf corff yn Ymerodraeth Songhai<br>• labelwch ddillad traddodiadol<br>• digidol - cymharwch a chyferbynnwch wyliau Askia a Gani<br>• lluniwch bost cyfryngau cymdeithasol ar gyfer gwyliau Askia a Gani.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pwysigrwydd traddodiadau, dawns a symbolaeth i bobl a diwylliant Songhai.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>• lluniwch grynodeb digidol o ddiwylliant Songhai, gan nodi'r pwysigrwydd i bobl Songhai.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr nodi arwyddocâd gweithgareddau diwylliannol Songhai. | **Delwedd(au):**<br>Kora (Offeryn)<br><br>Penwisg Songhai<br><br>Dillad Songhai<br><br>**Fideo(s):**<br>Doundounba, West African Dance<br><br>The Dazzling Diversity of African Dance - TED<br><br>West African Traditional Dance<br><br>African Dance: MALI West African Dance<br><br>The Songhai Empire: Africa's Age of Gold<br><br>**Gwedudalen(nau):**<br>African Culture Face and Body Art | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • arwyddocâd caethwasiaeth, gan gynnwys:<br>  • y rhesymau dros gaethwasiaeth yn yr ymerodraeth fel cipio wrth ryfela neu i dalu dyled<br>  • sut y defnyddiwyd caethwasiaeth o ran llafur a statws cymdeithasol i'r dosbarthiadau uwch. | Sut yr aeth pobl yn gaethweision yn Ymerodraeth Songhai gan gynnwys cael eu cipio drwy ryfela ac oherwydd dyledion.<br><br>Y rhesymau economaidd pam yr oedd caethweision yn werthfawr.<br><br>Statws a hawliau caethweision.<br><br>Y defnydd o gaethweision wrth adeiladu Ymerodraeth Songhai. | **Gweithgareddau:**<br>• trafodaeth - y rhesymau dros gaethwasiaeth yn Ymerodraeth Songhai<br>• gan ddefnyddio map(iau) nodwch y llwybrau masnach caethweision ar draws y Sahara<br>• lluniwch fap meddwl o'r defnydd a wnaed o gaethweision yn yr ymerodraeth a'u pwysigrwydd economaidd<br>• lluniwch byramid cymdeithasol yn dangos hierarchaeth Ymerodraeth Songhai a ble oedd lle caethweision ynddo<br>• cyflwynwch ddadl - a oedd caethweision yn hanfodol i lwyddiant Ymerodraeth Songhai?<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr werthuso effaith caethwasiaeth ar yr ymerodraeth ac ar ei phwysigrwydd economaidd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>• gwaith ffynhonnell - gwerthuswch bwysigrwydd caethwasiaeth o gymharu â ffactorau eraill fel y fyddin broffesiynol a rôl crefydd wrth gynnal yr ymerodraeth.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso pwysigrwydd caethweision yn yr ymerodraeth a | **Gwefan(nau):**<br>The Songhai Empire and Slavery<br><br>**Erthygl(au):**<br>Songhai, African Empire 15-16th century<br><br>**Fideo(s):**<br>The Songhai Empire: Africa's Age of Gold (section at 22 mins) | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | phenderfynu ai dyma oedd un o'r rhesymau pwysicaf dros ei llwyddiant. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.3.5 Dirywiad a chwymp Ymerodraeth Songhai | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • effaith problemau yn yr arweinyddiaeth, gan gynnwys:<br>  • problemau olyniaeth a wynebwyd ar ôl marwolaeth Askia Daoud<br>  • pwysigrwydd cystadlaethau rhanbarthol gan gynnwys llywodraethwyr a rheolwyr milwrol. | Y rhesymau dros farwolaeth Askia Daoud.<br><br>Olynwyr posibl Askia Daoud a'r problemau dilynol o ran olyniaeth.<br><br>Effaith gelyniaethau rhanbarthol.<br><br>Yr ymerodraeth yn gwanhau oherwydd tensiwn ac ansefydlogrwydd. | **Gweithgareddau:**<br>• trafodaeth - Pam y mae problemau olyniaeth yn codi? Pam yr oedd problemau olyniaeth ar ôl marwolaeth Askia Daould?<br>• lluniwch ddiagram i ddangos y gwahaniaethau a'r gelyniaethau rhanbarthol.<br>• llinell amser - rhowch broblemau rhanbarthol mewn trefn gronolegol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr grynhoi'r prif broblemau olyniaeth a'u cymharu â'r broblem gelyniaethau rhanbarthol.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>• rhowch effaith problemau olyniaeth yn nhrefn pwysigrwydd gyda chyfiawnhad.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ystyried safbwyntiau cymheiriaid a haneswyr o ran effaith problemau olyniaeth. | **Fideo(s):**<br>The Songhai Empire: Africa's Age of Gold<br><br>**Llyfr(au):**<br>*African Kingdoms*, E-lyfr Safon Uwch: OCR | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • y ffactorau economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar lwyddiant yr ymerodraeth, gan gynnwys:<br>• dirywiad y llwybrau masnach<br>• effaith sychder a newyn. | Y rhesymau dros ddirywiad y llwybrau masnach ar draws y Sahara.<br><br>Effaith sychder ar bobl Songhai a chryfder yr ymerodraeth.<br><br>Effaith newyn ar bobl Songhai a chryfder yr ymerodraeth. | **Gweithgareddau:**<br>• tasg ymchwil - pam wnaeth y llwybrau masnach ddirywio?<br>• tasg grŵp - ystyriwch effaith sychder ar grwpiau gwahanol yn Ymerodraeth Songhai fel menywod, masnachwyr a ffermwyr<br>• trafodaeth - roedd dirywiad y llwybrau masnach ar draws y Sahara yn bwysicach na phroblemau rhanbarthol yn nirywiad Ymerodraeth Songhai<br>• crynhowch y rhesymau hirdymor dros ddirywiad Ymerodraeth Songhai.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr gymharu effaith ffactorau amgylcheddol a ffactorau dynol yn achosi dirywiad Ymerodraeth Songhai.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>• lluniwch gynrychiolaeth ddigidol o'r llwybrau masnach, gan ddangos eu dirywiad.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr feithrin dealltwriaeth fanwl o effaith y llwybrau masnach ar lwyddiant Ymerodraeth Songhai. | **Fideo(s):**<br>The Songhai Empire: Africa's Age of Gold<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Pre-colonial West Africa*, Ibiang Oden Ewa, Journal of the Historical Society of Nigeria, 2017<br><br>**Erthygl(au):**<br>West African Kingdoms: Songhay<br><br>**Gwedudalen(nau):**<br>The Songhai Empire - Humanities LibreTexts | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • bygythiad Moroco a chwymp Ymerodraeth Songhai, gan gynnwys:<br>• Mantais Morocco a Brwydr Tondibi, 1591<br>• effaith dinistrio Timbuktu a rhannu tiriogaeth Songhai gan ffurfio teyrnasoedd llai. | Rhesymau dros fygythiad Moroco.<br><br>Y digwyddiadau a arweiniodd at Frwydr Tondibi, yn ystod ac ar ôl y frwydr.<br><br>Y digwyddiadau a arweiniodd at ddinistrio Timbuktu a'i effaith ar ffyniant Ymerodraeth Songhai.<br><br>Rhannu Ymerodraeth Songhai yn deyrnasau llai. | **Gweithgareddau:**<br>• trafodwch resymau dros fygythiad Moroco<br>• gwyliwch y clip fideo am Frwydr Tondibi<br>• ysgrifennu creadigol - lluniwch gyfrif o Frwydr Tondibi o safbwynt person cyntaf<br>• edrychwch ar fap(iau) o Ymerodraeth Songhai cyn ac ar ôl Brwydr Tondibi i gyfrifo'r tir a gollwyd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr nodi'r ysgogydd ar gyfer cwymp Ymerodraeth Songhai.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>• dylai dysgwyr roi achosion dirywiad Ymerodraeth Songhai yn nhrefn eu pwysigrwydd gyda chyfiawnhad.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch pam y cwympodd Ymerodraeth Songhai. | **Erthygl(au):**<br>The Fall of Africa's Greatest Kingdom<br><br>The Battle of Tondibi : The Moroccan Conquest of the Songhay Empire<br><br>**Fideo(s):**<br>Songhai vs Morocco: Resistance Against Invasion<br><br>The Battle of Tondibi: Epic Clash of Empires<br><br>The Fall of Songhai: The Battle of Tondibi<br><br>The Songhai Empire: Africa's Age of Gold<br><br>**Gwedudalen(nau)**<br>3.3: The Songhai Empire - Humanities LibreTexts<br><br>**Llyfr(au)**<br>*African Kingdoms*, E-lyfr Safon Uwch: OCR | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y testun ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| Cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Ymweliad digidol - Fideo(s) o Gonfensiwn Treftadaeth y Byd UNESCO: taith o Timbuktu. https://www.youtube.com/watch?v=j4V-QAzKQ3A<br><br>Taith ddigidol - Beddrod Askia Muhammad https://whc.unesco.org/en/list/1139/Video(s):<br><br>Taith ddigidol - Mosg Mawr Djenne. https://www.cyark.org/projects/djenne-mosque/tapestry2 |
| Meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Mae'r astudiaeth o bolisïau crefyddol drwy hanes Ymerodraeth Songhai yn galluogi dysgwyr i fyfyrio ar agweddau eraill tuag at oddefgarwch, gan gynnwys hunanfyfyrio. |
| Cydweithio | Mae cyfleoedd i ddysgwyr feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau, gwaith pâr a gwaith grŵp. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

## Opsiwn 3.3 Modern Cynnar: Ymerodraeth Songhai, tua 1464 – tua 1591

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae **Uned 3** yn rhoi chwe phwnc hanesyddol gwahanol sy'n ymwneud â hanes y byd i ganolfannau. Mae'r pynciau dewisol yn rhoi cyfleoedd i wella dealltwriaeth dysgwyr o'r byd a phrofiadau amrywiol y bobloedd. Mae'r opsiynau yn golygu y gellir astudio rhanbarthau a ymyleiddiwyd o'r byd, hanes pobloedd a ddisodlwyd a theyrnasoedd a anghofiwyd, yn enwedig gwledydd deheuol y byd.<br><br>Mae Opsiwn 3.3 Ymerodraeth Songhai tua 1464 - tua 1591 yn galluogi canolfannau a dysgwyr i archwilio hanes modern cynnar yn Affrica. Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o ddirywiad Ymerodraeth Mali a thwf Ymerodraeth Songhai drwodd i'w diwedd. Mae'r uned hon yn gwrthdroi'r safbwynt Ewropeaidd traddodiadol nad oedd Affrica wedi'i gwareiddio cyn trefedigaethu. |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ystyried hawliau unigolion mewn ymerodraeth amrywiol sy'n ehangu. Caiff statws a rôl dosbarthiadau, crefyddau a rhywiau gwahanol eu hystyried. Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ystyried effaith ymerodraeth sy'n ehangu sy'n cynnwys pobl o sawl crefydd. Caiff polisïau crefyddol eu harchwilio fel cynhwysiant a Chyfraith Sharia. Caiff effaith caethwasiaeth ei hystyried. |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | Gall dysgwyr feithrin dealltwriaeth o waith a gyrfaoedd yn Ymerodraeth Songhai gan gynnwys proffesiynoldeb y fyddin, datblygiad y llynges, rôl swyddogion allweddol a menywod. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd - Llythrennedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o'r ffordd y gellid ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Gwrando | Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion. |
| | |
| Darllen | Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad a roddir ganddynt o ddigwyddiadau. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer diben.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp. | |
| | **Enghreifftiau** | |
| | • Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. | |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Cânt gyfleoedd hefyd i fyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu. | |
| | **Enghreifftiau** | |
| | • Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd - Rhifedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Ceir cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol. |
| | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Ceir cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol** | | |
|---|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i bwnc hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellir ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol. | |
| | **Enghraifft** | |
| | Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â phwnc. | |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith. | |
| | **Enghraifft** | |
| | Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i bwnc er mwyn cyflwyno maes astudiaeth a'i gyflwyno. | |
| Cynhyrchu | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol. | |
| | **Enghraifft** | |
| | • Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudiaeth. | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| Sgiliau Cyfannol | |
|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU [Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau. |
| | |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o bynciau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn i senarios bywyd go iawn. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a diben.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. |
| | **Enghraifft** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| | |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae sawl cyfle i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgu am bynciau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Rhestr Termau ar gyfer Opsiwn 3.3 Ymerodraeth Songhai tua 1464 - tua 1591

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Arbenigo'r Fyddin | Gwelliannau i wneud y fyddin yn fwy effeithiol gan roi rolau wedi'u diffinio i'r bobl. |
| Llinach Askia | Llinach lywodraethol Ymerodraeth Songhai ar ôl llinach Sonni. |
| Llinach | Rheolwyr o'r un teulu. |
| Ymerodraeth | Grŵp o genhedloedd neu bobloedd a reolir gan rywun arall. |
| Gŵyl Gani | Un o wyliau pwysicaf Songhai, sy'n canolbwyntio ar ddiolchgarwch o'r cynhaeaf drwy gerddoriaeth, adrodd straeon a dawns. |
| Ymerodraeth Mali | Teyrnas yng ngorllewin Affrica a oedd ar ei hanterth yn y 13eg i'r 16eg ganrif. |
| Meritocratiaeth | Hyrwyddo unigolion yn seiliedig ar sgiliau a pherfformiad. |
| Moroco | Gwlad yng ngorllewin Affrica. |
| Paganiaeth | Credoau ac arferion y tu allan i grefyddau mawr y byd, yn aml yn seiliedig ar natur a defodau. |
| Afon Niger | Y drydedd afon hiraf yn Affrica sy'n llifo drwy sawl gwlad. |
| Sahara | Anialwch sy'n cwmpasu gorllewin Affrica. |
| Cyfraith Sharia | System gyfreithiol yn seiliedig ar egwyddorion Islamaidd. |
| Llinach Sonni | Llinach lywodraethol Ymerodraeth Songhai o ddiwedd y 14eg ganrif i ddechrau'r 15fed ganrif. |
| Songhai | Pobl sy'n byw ar hyd afon Niger yn ardaloedd Timbuktu a Gao. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025